Papur Briffio 8

Tai a Digartrefedd

Etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol 2007

"*Am bedwar mis aethon ni ddim i'r ysgol, aethon ni i chwe th^y – na, saith t^y – ac i chwe ysgol newydd... Dwi ddim yn hoffi symud achos bydda i'n gwneud ffrindiau newydd bob tro ac wedyn dwi'n gorfod symud dro ar ôl tro ar ôl tro.*"

Listen Up: The voices of homeless children
Shelter

Save the Children
Achub y Plant

Shelter Cymru
PENBLWYDD 25 BIRTHDAY

Promoting Children's Rights
TROS GYNNAL
Hawliau Plant

NCH CYMRU

NSPCC
Dim mwy o greulondeb i blant. DIM.
Cruelty to children must stop. FULL STOP.

Barnardo's Cymru
RHOI'R DYFODOL YN ÔL I'N PLANT
GIVING CHILDREN BACK THEIR FUTURE

Tai a Digartrefedd

Mae tai yn un o'r blaenoriaethau ar gyfer cymorth gwladol dan Erthygl 27 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae hynny wedi'i adlewyrchu yn un o nodau craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer plant: "Cartref a chymuned ddiogel".

Mae miloedd o bobl yn mynd yn ddigartref yng Nghymru bob blwyddyn. Mae nifer y bobl ddigartref a gofnodir wedi cynyddu yn 2003 ac yn 2004 ac, er bod gostyngiad yn 2005, roedd mwy na 20,000 o deuluoedd wedi gwneud cais i'w hawdurdod lleol fel pobl ddigartref. O ganlyniad i gyflwyno'r agenda atal digartrefedd, ni ellir cymharu'r ffigurau cyfredol ar gyfer nifer y bobl ddigartref a gofnodir, tebyg at ei debyg, gyda'r ffigurau ar gyfer blynyddoedd blaenorol a dim ond cipolwg o'r darlun cyffredinol a geir o ran nifer y bobl sy'n mynd at Awdurdodau Lleol i geisio cymorth. Os ceir gostyngiad yn nifer y ceisiadau gan bobl ddigartref, nid yw hynny'n golygu o reidrwydd fod pobl yn cael cymorth effeithiol. Er bod Awdurdodau Lleol yn gweithio'n gadarnhaol i atal digartrefedd (ee drwy ymyriadau cynharach, cyfryngu a gweithio mewn partneriaeth) mae perygl bod yr agenda ar atal digartrefedd yn lleol yn arwain at wrthod cymorth i bobl a chynnig atebion tymor byr yn unig iddynt (fel y gwelwyd drwy waith achosion Shelter Cymru a'r diffyg monitro gan awdurdodau lleol ar y gwaith hwn).

Mae cyfran sylweddol o bobl ddigartref yn deuluoedd sydd â phlant dibynnol ac mae eraill yn bobl ifanc sy'n agored i niwed. Mae ymchwil yn dangos bod digartrefedd yn andwyo iechyd corfforol a meddyliol pobl, yn effeithio ar gyrhaeddiad addysgol plant ac yn difetha cyfleoedd bywyd teuluoedd ar gyfer y dyfodol. Nid problem ymylol â chost fach yw hon – mae'n costio'n ddrud i unigolion a theuluoedd yn y tymor byr a hwy ac mae'n costio'n ddrud i Gymru, yn gymdeithasol ac yn economaidd, gan effeithio, er enghraifft, ar iechyd meddyliol a chorfforol, cyrhaeddiad addysgol, troseddu ac aildroseddu.

Beth sydd wedi'i gyflawni ers 2003?

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cymryd rhai camau i ddelio â digartrefedd yng Nghymru. Rhai enghreifftiau o hynny yw is-ddeddfwriaeth a fydd yn cyfyngu ar ddefnydd llety gwely a brecwast ar gyfer teuluoedd sydd â phlant, pobl ifanc 16-17 mlwydd oed a merched beichiog, er mwyn sicrhau gwelliannau o ran diwallu anghenion iechyd a mynediad at gymorth a gwasanaethau ar gyfer teuluoedd sydd wedi'u lleoli mewn llety dros dro a gwella amodau llety dros dro.

Cafwyd fersiwn ddiwygiedig o'r Strategaeth Genedlaethol ar Ddigartrefedd sy'n rhoi pwys ar atal digartrefedd ac achosion olynol o ddigartrefedd ac yn cynnwys cynllun gweithredu ar gyfer Llywodraeth y Cynulliad ac Awdurdodau Lleol. Rhoddwyd rhai adnoddau i helpu awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau atal ac mae gweithio mewn partneriaeth, yn unol â safbwynt cyffredinol y Cynulliad a Chreu'r Cysylltiadau, hefyd yn elfen bwysig.

Mae cynlluniau Cymorth Prynu wedi helpu rhai pobl sydd ar incwm isel i gael mynediad i'r farchnad dai. Serch hynny, mae cael gafael ar dai fforddiadwy yn dal i achosi problemau sylweddol ym maes tai ledled Cymru.

Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi dileu'r prawf modd ar gyfer addasiadau i dai ar gyfer plant anabl ac wedi dechrau rhoi sylw i anghenion cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Rydym yn croesawu'r Strategaeth Genedlaethol ar Ddigartrefedd a'r argymhellion yn yr adolygiad o addasiadau i dai i ddarparu cyngor a gwybodaeth i bobl sydd ag anableddau a chofrestrau lleol o dai hygyrch ac addasedig sydd ar gael yn ardaloedd yr awdurdodau lleol.

Beth yw ein pryderon presennol?

- Cafodd dros 20,000 o bobl eu derbyn fel rhai digartref yn 2005

- Roedd 7,000 o'r rhain yn blant dibynnol
- Roedd 654 o'r teuluoedd a dderbyniwyd yn cynnwys menyw feichiog
- Roedd 716 o'r rhai a dderbyniwyd yn rhai 16-17 flwydd oed

Yn ogystal â hynny, er ei bod yn dda nodi bod nifer y cartrefi a ystyrir yn rhai anaddas wedi gostwng, mae mwy na 57,000 o gartrefi cyntaf anaddas sydd wedi'u meddiannu yng Nghymru o hyd ac mae llawer o'r rhain yn anaddas oherwydd damprwydd ac adfeiliad. Mae mwy na 20,000 o aelwydydd lle y mae plant dibynnol yn byw mewn llety a ystyrir yn anaddas.

Mae Strategaeth Dai Genedlaethol Cymru yn cydnabod bod mwy o dai anaddas mewn ardaloedd gwledig nag mewn ardaloedd eraill. Mae tai'n brin mewn ardaloedd gwledig hefyd oherwydd y nifer a brynir fel ail gartrefi, yr hawl i brynu a phwysau'r farchnad. Er mwyn ymateb i hynny, mae'r strategaeth genedlaethol wedi cynyddu darpariaeth y cynllun cymorth prynu i 50% o werth yr eiddo mewn ardaloedd gwledig, ond mae diffyg tai fforddiadwy'n dal i fod yn fater o bwys.

Mae diffyg o hyd o ran tai addas a fforddiadwy i ddiwallu anghenion penodol, gan gynnwys anghenion sydd gan bobl anabl a phobl ifanc sy'n agored i niwed.

Er ei bod yn ymddangos bod awydd i fynd i'r afael â phroblemau tai a digartrefedd ymysg rhai gwleidyddion cenedlaethol a lleol, nid oes digon o adnoddau i fynd at wraidd y materion hyn yng Nghymru.

Argymhellion

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i:

- Roi blaenoriaeth wleidyddol uchel i gamau i ddelio â digartrefedd a darparu tai fforddiadwy addas, a sicrhau bod blaenoriaeth uchel i hynny ar lefel yr Awdurdodau Lleol.
- Gweithio i ddod o hyd i atebion parhaol i broblemau teuluoedd a phobl ifanc digartref, yn hytrach na dim ond cadw golwg ar wasanaethau ac ymateb i argyfyngau drwy ddefnyddio mesurau tymor byr.
- Neilltuo mwy o arian cyhoeddus i'w fuddsoddi yn natblygiadau strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru a darparu mwy o dai fforddiadwy ac addas yng Nghymru.
- Manteisio ar unrhyw gyfleoedd dan y Ddeddf Llywodraeth Cymru newydd i ymateb yn well i ddigartrefedd a sicrhau gwell mynediad i dai fforddiadwy yng Nghymru.
- Sicrhau bod tai yn yr holl ddaliadaethau, ac nid tai yn y sector rhent cymdeithasol yn unig, yn cael eu hadeiladu at safonau Cartrefi Gydol Oes. Byddai hynny'n ei gwneud yn haws o lawer i deuluoedd sydd ag aelod anabl ystyried gwneud addasiadau, beth bynnag fo'r ddaliadaeth.
- Ymchwilio i ffyrdd o gefnogi datblygiad ymddiriedolaethau tir cymunedol a mentrau tai gwledig cydweithredol.
- Hyrwyddo gwaith trylwyr gyda landlordiaid preifat i sicrhau llety rhent preifat o ansawdd da.
- Rhoi cymorth grant ar gyfer cynlluniau hunanadeiladu.
- Sefydlu fersiwn Gymreig o Ownership Options yr Alban sy'n galluogi pobl anabl mewn tai anaddas i ddod yn berchnogion ar dai drwy ddefnyddio Cymhorthdal Incwm ar gyfer Llog Morgais (ISMI).
- Gweithredu argymhellion adroddiad Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio Cynulliad Cenedlaethol Cymru o'i adolygiad o Ddigartrefedd ymhlith Pobl Ifanc Cymru (Busnes pawb : cyfrifoldeb neb) Chwefror 2007).

MANYLION CYSWLLT

BARNARDO'S CYMRU
ANDY JAMES, CYFARWYDDWR CYNORTHWYOL, POLISI
Ffôn: 01792 463357
E-bost: andy.james@barnardos.org.uk

NCH CYMRU
JAYNE ISAAC, SWYDDOG POLISI CYHOEDDUS
Ffôn: 029 20 222127
E-bost: jayne.isaac@nch.org.uk

NSPCC
SIMON JONES, CYNGHORYDD POLISI CYMRU
Ffôn: 029 20 267000
E-bost: simonjones@nspcc.org.uk

ACHUB Y PLANT
ANNE CROWLEY, UWCH GYNGHORYDD POLISI
Ffôn: 029 20 396838
E-bost: a.crowley@savethechildren.org.uk

SHELTER CYMRU
JOHN PRITCHARD, RHEOLWR POLISI
Ffôn: 01978 353649
E-bost: john@sheltercymru.org.uk

TROS GYNNAL
JACKIE MURPHY, CYFARWYDDWR CYNORTHWYOL
Ffôn: 029 20 396974
E-bost: jackie.murphy@trosgynnal.org.uk

Cefnogwyd y papur briffio hwn gan Plant yng Nghymru